

RHESTR O WELLIANNAU WEDI’U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) Development of Tourism and Regulation of Visitor Accommodation (Wales) Bill

Mae’r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu’n rhai sydd wedi’u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag ‘R’ yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu
17 wrth gyflwyno’r gwelliant.

Amendments marked ‘R’ mean that the Member has declared either a registrable interest
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling
the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –	
The Bill will be considered in the following order –	
Sections 1 - 4	Adrannau 1 - 4
Schedule 1	Atodlen 1
Sections 5 - 14	Adrannau 5 - 14
Atodlen 2	Atodlen 2
Sections 15 - 60	Adrannau 15 - 60
Long title	Teitl hir

Rhys ab Owen

64

Page 2, after line 31, insert a new section –

[] Tourism advisory panel

- (1) The Welsh Ministers must appoint persons to be members of a panel (“the panel”) to advise the Welsh Ministers in the exercise of their functions under this Part.

- (2) The Welsh Ministers must, in the exercise of those functions, have regard to any information or advice provided by the panel.
- (3) The Welsh Ministers must take reasonable steps to ensure that the panel includes persons who are representatives of –
 - (a) organisations that represent businesses that work in tourism, or are engaged in activities related to tourism, in Wales, and
 - (b) organisations that promote or facilitate tourism in Wales.
- (4) The Welsh Ministers may pay remuneration, expenses and allowances to a person appointed under subsection (1).’.

Tudalen 2, ar ôl llinell 33, mewnosoder adran newydd –

[] Panel cyngori ar dwristiaeth

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi personau i fod yn aelodau o banel (“y panel”) i gynghori Gweinidogion Cymru wrth iddynt arfer eu swyddogaethau o dan y Rhan hon.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer y swyddogaethau hynny, roi sylw i unrhyw wybodaeth neu gyngor a ddarperir gan y panel.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y panel yn cynnwys personau sy’n gynrychiolwyr o –
 - (a) sefydliadau sy’n cynrychioli busnesau sy’n gweithio ym maes twristiaeth, neu sy’n ymwneud â gweithgareddau sy’n gysylltiedig â thwristiaeth, yng Nghymru, a
 - (b) sefydliadau sy’n hybu neu’n hwyluso twristiaeth yng Nghymru.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru dalu tâl, treuliau a lwfansau i berson a benodir o dan is-adran (1).’.

Rhys ab Owen

65

Page 2, after line 31, insert a new section –

[] Annual report

- (1) As soon as is reasonably practicable after the end of each financial year, the Welsh Ministers must –
 - (a) prepare and publish a report (an “annual report”) on the exercise of their functions under this Part during that financial year, and
 - (b) lay a copy of the annual report before Senedd Cymru.
- (2) In preparing the annual report, the Welsh Ministers must consult –
 - (a) the panel appointed under section (*first sub-section to be inserted by amendment 64 (Tourism advisory panel)*), and
 - (b) any other persons they consider appropriate.’.

Tudalen 2, ar ôl llinell 33, mewnosoder adran newydd –

[] Adroddiad blynyddol

- (1) Cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i Weinidogion Cymru –
 - (a) llunio a chyhoeddi adroddiad (“adroddiad blynyddol”) ar arfer eu swyddogaethau o dan y Rhan hon yn ystod y flwyddyn ariannol honno, a
 - (b) gosod copi o’r adroddiad blynyddol gerbron Senedd Cymru.
- (2) Wrth lunio’r adroddiad blynyddol, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag –
 - (a) y panel a benodir o dan adran (*is-adran gyntaf i’w mewnosod gan welliant 64 (Panel cynghori ar dwristiaeth)*), a
 - (b) unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.’.

Rhys ab Owen

66

Gyda chefnogaeth / Supported by: Samuel Kurtz

Section 3, page 2, line 33, leave out ‘may’ and insert ‘must’.

Adran 3, tudalen 2, llinell 35, hepgorer ‘Caiff Gweinidogion’ a mewnosoder ‘Rhaid i Weinidogion’.

Rhys ab Owen

67

Section 3, page 3, after line 8, insert –

- ‘() But the code of practice under subsection (1) must give guidance about complying with the general fitness standard (see section 7).’.

Adran 3, tudalen 3, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

- ‘() Ond rhaid i’r cod ymarfer o dan is-adran (1) roi canllawiau ynghylch cydymffurfio â’r safon gyffredinol o ran ffitrwydd (gweler adran 7).’.

Rhys ab Owen

68

Section 5, page 3, after line 26, insert –

- ‘() accommodation in the VAP’s only or main residence (whether offered permanently or from time to time);’.

Adran 5, tudalen 3, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

- ‘() llety yn unig breswylfa neu brif breswylfa’r DLIY (pa un a gynigir yn barhaol neu o bryd i’w gilydd);’.

Rhys ab Owen 69

Section 5, page 3, line 29, leave out ‘(1)(a) self-catering accommodation that is self-contained’ and insert ‘(1) visitor accommodation’.

Adran 5, tudalen 3, llinell 30, hepgorer ‘(1)(a), nid yw llety hunanddarpar sy’n hunangynhwysol’ a mewnosoder ‘(1), nid yw llety ymwelwyr’.

Rhys ab Owen 70

Section 5, page 4, leave out lines 7 to 8.

Adran 5, tudalen 4, hepgorer llinellau 7 hyd at 8.

Mark Drakeford 1

Section 5, page 4, line 27, after ‘Act’, insert ‘or the Visitor Accommodation (Register and Levy) Etc. (Wales) Act 2025 (asc 5)’.

Adran 5, tudalen 4, llinell 26, ar ôl ‘hon’, mewnosoder ‘neu Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5)’.

Mark Drakeford 2

Section 5, page 4, line 31, after ‘appropriate’, insert ‘and allow those persons a period of at least 12 weeks to respond’.

Adran 5, tudalen 4, llinell 30, ar ôl ‘briodol’, mewnosoder ‘a rhoi cyfnod o 12 wythnos o leiaf i’r personau hynny i ymateb’.

Samuel Kurtz 75

Section 7, page 5, line 37, leave out ‘the following requirements are met –

- (a) in relation to the risk of harm to visitors –
 - (i) the premises are structurally stable,
 - (ii) the design, layout or construction of the premises is appropriate,
 - (iii) the premises and any fixtures are adequately maintained and free from disrepair,
 - (iv) any installations for the supply of gas, electricity or water are in proper working order and, in the case of water, free from contamination,
 - (v) the premises are free from carbon monoxide, uncontrolled fire and associated smoke, and other hazardous substances,
 - (vi) the premises are hygienic, and
 - (vii) the premises are secure;
- (b) in relation to the amenity of visitors –

- (i) the premises have adequate provision of lighting, heating and ventilation,
- (ii) the premises have an adequate system of drainage,
- (iii) the premises have appropriate space for sleeping,
- (iv) in the case of self-catering accommodation, the premises have appropriate facilities for the preparation, storage and cooking of food, and
- (v) the premises have adequate and appropriate sanitary conveniences’

and insert –

‘any requirements specified by the Welsh Ministers in regulations under subsection (2) are met.

- () The Welsh Ministers may by regulations specify requirements in relation to the risk of harm to visitors for the purposes of subsection (1).
- () Regulations under subsection (2) may specify, amongst other matters, requirements in relation to –
 - (a) the structural stability of the premises,
 - (b) the design and layout of the premises,
 - (c) the maintenance of the premises and any fixtures or fittings, or
 - (d) the hygiene and security of the premises.
- () Before making regulations under subsection (2), the Welsh Ministers must consult any persons they consider appropriate’.

Adran 7, tudalen 5, llinell 37, hepgorer ‘yw bod y gofynion a ganlyn, i’r graddau y maent yn gymwys mewn perthynas â’r fangre, wedi eu bodloni –

- (a) mewn perthynas â’r risg o niwed i ymwelwyr –
 - (i) bod y fangre yn strwythurol sefydlog,
 - (ii) bod dyluniad, cynllun neu adeiladwaith y fangre yn briodol,
 - (iii) bod y fangre ac unrhyw eitemau gosod yn cael eu cynnal a’u cadw yn ddigonol a’u bod mewn cyflwr da,
 - (iv) bod unrhyw osodiadau ar gyfer cyflenwi nwy, trydan neu ddŵr yn gweithio’n iawn ac, yn achos dŵr, nad ydynt wedi eu halogi.
 - (v) bod y fangre yn rhydd rhag carbon monocsid, tân afreolus a’r mwg sy’n gysylltiedig ag ef, a sylweddau peryglus eraill,
 - (vi) bod y fangre yn hylan, a
 - (vii) bod y fangre yn ddiogel;
- (b) mewn perthynas â’r amwynder i ymwelwyr –
 - (i) bod gan y fangre ddarpariaeth ddigonol o ddulliau goleuo, gwresogi ac awyru,
 - (ii) bod gan y fangre system ddraenio ddigonol,
 - (iii) bod gan y fangre le priodol ar gyfer cysgu,
 - (iv) yn achos llety hunanddarpar, fod gan y fangre gyfleusterau priodol ar gyfer paratoi, storio a choginio bwyd, a
 - (v) bod gan y fangre gyfleusterau glanweithdra digonol a phriodol’

a mewnosoder –

‘, i’r graddau y maent yn gymwys mewn perthynas â’r fangre, yw bod unrhyw ofynion a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau o dan is-adran (2) wedi eu bodloni.

- (i) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau bennu gofynion mewn perthynas â’r risg o niwed i ymwelwyr at ddibenion is-adran (1).
- (i) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2) bennu, ymhlith materion eraill, ofynion mewn perthynas ag –
 - (a) sefydlogrwydd strwythurol y fangre,
 - (b) dyluniad a chynllun y fangre,
 - (c) gwaith cynnal a chadw’r fangre ac unrhyw osodiadau neu ffitiadau, neu
 - (d) hylendid a diogelwch y fangre.
- (i) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol’.

Mark Drakeford

3

Section 7, page 6, line 2, leave out ‘or’ and insert ‘and’.

Adran 7, tudalen 6, llinell 2, hepgorer ‘neu’ a mewnosoder ‘ac’.

Mark Drakeford

4

Section 8, page 6, line 20, leave out ‘prevention’ and insert ‘safety’.

Adran 8, tudalen 6, llinell 21, hepgorer ‘atal’ a mewnosoder ‘diogelwch’.

Rhys ab Owen

5A

As an amendment to amendment 5, after line 16, insert –

- ‘(i) The VAP must not appoint a person to assist them with making or reviewing the assessment unless that person is competent.
- (i) A person is to be regarded as competent for the purposes of subsection (*first subsection to be inserted by this amendment*) where the person has sufficient training and experience or knowledge and other qualities to enable the person properly to assist in making or reviewing the assessment.’.

Fel gwelliant i welliant 5, ar ôl llinell 17, mewnosoder –

- ‘(i) Ni chaniateir i’r DLIY benodi person i’w gynorthwyo wrth wneud neu adolygu’r asesiad oni bai bod y person hwnnw yn gymwys.
- (i) Mae person i gael ei ystyried yn gymwys at ddibenion is-adran (*is-adran gyntaf i’w mewnosod gan y gwelliant hwn*) pan fo gan y person hyfforddiant a phrofiad digonol neu wybodaeth ddigonol a nodweddion eraill i alluogi’r person yn briodol i gynorthwyo wrth wneud neu adolygu’r asesiad.’.

Mark Drakeford

5

Section 9, page 6, line 26, leave out ‘prevention standard is that requirements 1 and 2 are met.

- (2) Requirement 1 is that the VAP has carried out a fire safety risk assessment in respect of the premises.
- (3) Requirement 2 is that –
 - (a) the VAP has implemented any general fire precautions identified in the fire safety risk assessment, and
 - (b) notwithstanding paragraph (a), in the case of regulated visitor accommodation in a building, or in a mobile home, vessel or other vehicle, there is at least one functioning smoke alarm installed on each storey of the premises.
- (4) In subsection (3)(b), where there is an electrical service installation at the premises, the smoke alarm must –
 - (a) be connected to that installation, and
 - (b) be linked to every other smoke alarm at the premises that is connected to the electrical service installation.
- (5) In this section –
 - (a) a “fire safety risk assessment” means an assessment of the risks to which visitors are exposed at the premises for the purpose of identifying the general fire precautions –
 - (i) that, where the Fire Safety Order applies in relation to the premises, need to be taken to comply with the requirements and prohibitions imposed in relation to the premises at the time of the assessment by or under the Fire Safety Order, or
 - (ii) that would need to be taken to comply with the requirements and prohibitions imposed by or under that Order were it to apply in relation to the premises;
 - (b) an “electrical service installation” means an installation for the supply of electricity and the reference to an electrical service installation “at the premises” includes, where the premises forms part only of a building, an electrical service installation that, directly or indirectly, serves the premises, and that is installed in any part of the building of which the VAP is an occupier;
 - (c) a reference to the “Fire Safety Order” is to the Regulatory Reform (Fire Safety) Order 2005 (S.I. 2005/1541’

and insert –

‘safety standard, in relation to any premises at which regulated visitor accommodation is provided, is that the VAP maintains –

- () a written assessment of the risks to which persons on the premises are exposed for the purpose of identifying the general fire precautions the VAP needs to take to ensure, so far as is reasonably practicable, the safety of those persons, and
- () a record of the general fire precautions identified and taken in accordance with that assessment.

(3) For the purposes of subsection (1) –

- () “general fire precautions” has the same meaning as in article 4 of the Regulatory Reform (Fire Safety) Order 2005 (S.I. 2005/1541);
- () the VAP must keep the assessment under review, and update it as appropriate, and the VAP must update the assessment where –
 - (i) there has been a significant change in any of the matters to which it relates, or
 - (ii) the VAP is aware, or ought to be aware, that there is any other reason to update the assessment’.

Adran 9, tudalen 6, llinell 27, hepgorer ‘atal tân yw bod gofynion 1 a 2 wedi eu bodloni.

- (4) Gofyniad 1 yw bod y DLIY wedi cynnal asesiad risg diogelwch tân mewn cysylltiad â’r fangre.
- (5) Gofyniad 2 yw –
 - (a) bod y DLIY wedi gweithredu unrhyw ragofalon tân cyffredinol a nodir yn yr asesiad risg diogelwch tân, a
 - (b) er gwaethaf paragraff (a), yn achos llety ymwelwyr rheoleiddiedig mewn adeilad, neu mewn cartref symudol, llestr neu gerbyd arall, fod o leiaf un larwm mwg gweithredol wedi ei osod ar bob llawr yn y fangre.
- (6) Yn is-adran (3)(b), pan fo gosodiad gwasanaeth trydanol yn y fangre, rhaid i’r larwm mwg fod –
 - (a) wedi ei gysylltu â’r gosodiad hwnnw, a
 - (b) wedi ei gysylltu â phob larwm mwg arall yn y fangre sydd wedi ei gysylltu â’r gosodiad gwasanaeth trydanol.
- (7) Yn yr adran hon –
 - (a) ystyr “asesiad risg diogelwch tân” yw asesiad o’r risgiau y mae ymwelwyr yn agored iddynt yn y fangre at ddiben nodi’r rhagofalon tân cyffredinol –
 - (i) y mae angen eu cymryd, pan fo’r Gorchymyn Diogelwch Tân yn gymwys mewn perthynas â’r fangre, er mwyn cydymffurfio â’r gofynion a’r gwaharddiadau a osodwyd mewn perthynas â’r fangre ar adeg yr asesiad gan neu o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân, neu
 - (ii) y byddai angen eu cymryd er mwyn cydymffurfio â’r gofynion a’r gwaharddiadau a osodir gan neu o dan y Gorchymyn hwnnw pe bai’n gymwys mewn perthynas â’r fangre;
 - (b) ystyr “gosodiad gwasanaeth trydanol” yw gosodiad ar gyfer cyflenwi trydan ac mae’r cyfeiriad at osodiad gwasanaeth trydanol “yn y fangre” yn cynnwys, pan fo’r fangre yn ffurfio rhan yn unig o adeilad, osodiad gwasanaeth trydanol sy’n gwasanaethu’r fangre yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, ac sydd wedi ei osod yn unrhyw ran o’r adeilad y mae’r DLIY yn feddiannydd arno;
 - (c) mae cyfeiriad at y “Gorchymyn Diogelwch Tân” yn gyfeiriad at Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (O.S. 2005/1541)’

a mewnosoder –



‘diogelwch tân, mewn perthynas ag unrhyw fangre lle y darperir llety ymwelwyr rheoleiddiedig, yw bod y DLIY yn cynnal –

- () asesiad ysgrifenedig o’r risgiau y mae personau yn y fangre yn agored iddynt at ddben nodi’r rhagofalon tân cyffredinol y mae angen i’r DLIY eu cymryd er mwyn sicrhau, i’r graddau y bo’n rhesymol ymarferol, ddiogelwch y personau hynny, a
 - () cofnod o’r rhagofalon tân cyffredinol a nodwyd ac a gymerwyd yn unol â’r asesiad hwynnw.
- (8) At dibenion is-adran (1) –
- () mae i “rhagofalon tân cyffredinol” yr un ystyr ag a roddir i “general fire precautions” yn erthygl 4 o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (O.S. 2005/1541);
 - () rhaid i’r DLIY gadw’r asesiad o dan adolygiad, a’i ddiweddarau fel y bo’n briodol, a rhaid i’r DLIY ddiweddarau’r asesiad –
 - (i) pan fo newid sylweddol wedi bod yn unrhyw un neu ragor o’r materion y mae’n ymwneud â hwy, neu
 - (ii) pan fo’r DLIY yn ymwybodol, neu y dylai fod yn ymwybodol, fod unrhyw reswm arall i ddiweddarau’r asesiad’.

Mark Drakeford

52

Schedule 2, page 40, leave out lines 12 to 18 and insert –

- ‘() in subsection (4) –
- (i) the words “the information contained in the register by virtue of Schedule 1” become paragraph (a);
 - (ii) after “Schedule 1” insert “and sections 16A and 16D;
 - (b) the registration number specified under this Part for each VAP;
 - (c) the registration number specified under this Part in respect of each premises”;

Atodlen 2, tudalen 40, hepgorer llinellau 12 hyd at 18 a mewnosoder –

- ‘() yn is-adran (4) –
- (i) daw’r geiriau “yr wybodaeth a gynhwysir yn y gofrestr yn rhinwedd Atodlen 1” yn baragraff (a);
 - (ii) ar ôl “Atodlen 1” mewnosoder “ac adrannau 16A ac 16D;
 - (b) y rhif cofrestru a bennir o dan y Rhan hon ar gyfer pob DLIY;
 - (c) y rhif cofrestru a bennir o dan y Rhan hon mewn cysylltiad â phob mangre”;



Mark Drakeford

53

Schedule 2, page 40, line 36, leave out ‘send the person a notice’ and insert ‘issue a notice to the person’.

Atodlen 2, tudalen 40, llinell 36, hepgorer ‘anfon hysbysiad at y’ a mewnosoder ‘ddyroddi hysbysiad i’r’.

Mark Drakeford

54

Schedule 2, page 41, line 22, leave out ‘send the VAP a notice’ and insert ‘issue a notice to the VAP’.

Atodlen 2, tudalen 41, llinell 22, hepgorer ‘anfon hysbysiad at y’ a mewnosoder ‘ddyroddi hysbysiad i’r’.

Mark Drakeford

55

Schedule 2, page 41, after line 24, insert –

‘() in subsection (4), for the words from “the VAP gives notice to WRA” to the end substitute “the VAP –

(a) gives notice to WRA –

(i) if the entry is inaccurate, providing the information necessary to make the VAP’s entry accurate, or

(ii) confirming that the entry is accurate, or

(b) applies to WRA to be removed from the register.”’.

Atodlen 2, tudalen 41, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

‘() yn is-adran (4), yn lle’r geiriau o “y mae’r DLIY yn rhoi hysbysiad i ACC” hyd at y diwedd rhodder “y mae’r DLIY –

(a) yn rhoi hysbysiad i ACC –

(i) os yw’r cofnod yn anghywir, sy’n darparu’r wybodaeth sy’n angenrheidiol i wneud cofnod y DLIY yn gywir, neu

(ii) sy’n cadarnhau bod y cofnod yn gywir, neu

(b) yn gwneud cais i ACC i gael ei ddileu o’r gofrestr.”’.

Mark Drakeford

56

Schedule 2, page 42, line 9, after ‘VAP’, insert ‘, and

(b) does not fall within subsection (2),’.

Atodlen 2, tudalen 42, llinell 8, ar ôl ‘trwyddedig,’ , mewnosoder ‘a

(b) nad yw’n dod o fewn is-adran (2),’.

Mark Drakeford

57

Schedule 2, page 42, leave out lines 13 to 16 and insert –

- (2) If a person –
- (a) ceases to be a licensed VAP, and
 - (b) during the period of 31 days beginning with the day on which the person ceased to be a licensed VAP, does not –
 - (i) provide or offer to provide visitor accommodation at any premises;
 - (ii) become a licensed VAP,
- the person must, before the end of that period, make an application under section 14 for removal from the register.
- (3) For the purposes of this section –
- (a) no account is to be taken of any day during –
 - (i) the period beginning with the day on which a person applies for a visitor accommodation licence under section 18(1) of the Development of Tourism and Regulation of Visitor Accommodation (Wales) Act 2026 (asc 00) (“the 2026 Act”), and ending on the day on which the application is determined under section 20(1) or section 21(2) of that Act;
 - (ii) the period beginning with the day on which a decision relating to the grant or revocation of a visitor accommodation licence becomes subject to an appeal under section 28 of the 2026 Act, and ending on the day the appeal is finally determined or withdrawn;
 - (b) the days immediately before and after a period mentioned in paragraph (a) are to be treated as consecutive.’.

Atodlen 2, tudalen 42, hepgorer llinellau 12 hyd at 15 a mewnosoder –

- (2) Os –
- (a) yw person yn peidio â bod yn DLIY trwyddedig, a
 - (b) yn ystod y cyfnod o 31 o ddiwrnodau sy’n dechrau â’r diwrnod y peidiodd y person â bod yn DLIY trwyddedig, nad yw person –
 - (i) yn darparu, neu’n cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre;
 - (ii) yn dod yn DLIY trwyddedig,
- rhaid i’r person, cyn diwedd y cyfnod hwnnw, wneud cais o dan adran 14 i gael ei ddileu o’r gofrestr.
- (3) At ddibenion yr adran hon –

- (a) rhaid diystyru unrhyw ddiwrnod yn ystod –
- (i) y cyfnod sy’n dechrau â’r diwrnod y mae person yn gwneud cais am drwydded llety ymwelwyr o dan adran 18(1) o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00) (“Deddf 2026”), ac sy’n dod i ben ar y diwrnod y dyfernir ar y cais o dan adran 20(1) neu adran 21(2) o’r Ddeddf honno;
 - (ii) y cyfnod sy’n dechrau â’r diwrnod y mae penderfyniad sy’n ymwneud â rhoi neu ddirymu trwydded llety ymwelwyr yn dod yn ddarostyngedig i apêl o dan adran 28 o Ddeddf 2026, ac sy’n dod i ben ar y diwrnod y dyfernir yn derfynol ynghylch yr apêl neu y tynnir yr apêl yn ôl;
- (b) mae’r diwrnodau yn union cyn ac ar ôl cyfnod a grybwyllir ym mharagraff (a) i’w trin fel pe baent yn ddiwrnodau olynol.’.

Mark Drakeford

58

Schedule 2, page 42, leave out lines 23 to 24 and insert –

- ‘() for “14(1)” substitute “14A(1) or (2)”;
- () in subsection (2), after “the person” insert “is not a licensed VAP and the person”;
- () after subsection (4) insert –
 - “(5) For the purposes of subsections (2) and (3), no account is to be taken of any day during –
 - (a) the period beginning with the day on which a person applies for a visitor accommodation licence under section 18(1) of the Development of Tourism and Regulation of Visitor Accommodation (Wales) Act 2026 (“the 2026 Act”), and ending on the day on which the application is determined under section 20(1) or section 21(2) of that Act;
 - (b) the period beginning with the day on which a decision relating to the grant or revocation of a visitor accommodation licence becomes subject to an appeal under section 28 of the 2026 Act, and ending on the day the appeal is finally determined or withdrawn.”’.

Atodlen 2, tudalen 42, hepgorer llinellau 23 hyd at 24 a mewnosoder –

- ‘() yn lle “14(1)” rhodder “14A(1) neu (2)”;
- () yn is-adran (2), yn lle “yw’r person” rhodder “nad yw’r person yn DLIY trwyddedig ac os yw’r person”;
- () ar ôl is-adran (4) mewnosoder –

“(5) At ddibenion is-adrannau (2) a (3), rhaid diystyru unrhyw ddiwrnod yn ystod –

- (a) y cyfnod sy’n dechrau â’r diwrnod y mae person yn gwneud cais am drwydded llety ymwelwyr o dan adran 18(1) o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (“Deddf 2026”), ac sy’n dod i ben ar y diwrnod y dyfernir ar y cais o dan adran 20(1) neu adran 21(2) o’r Ddeddf honno;
- (b) y cyfnod sy’n dechrau â’r diwrnod y mae penderfyniad sy’n ymwneud â rhoi neu ddirymu trwydded llety ymwelwyr yn dod yn ddarostyngedig i apêl o dan adran 28 o Ddeddf 2026, ac sy’n dod i ben ar y diwrnod y dyfernir yn derfynol ynghylch yr apêl neu y tynnir yr apêl yn ôl.”.

Mark Drakeford

59

Schedule 2, page 42, line 27, leave out “14A(1)” and insert “14A”.

Atodlen 2, tudalen 42, llinell 26, hepgorer “14A(1)” a mewnosoder “14A”.

Mark Drakeford

60

Schedule 2, page 46, after line 28, insert –

‘[] In section 21 (double jeopardy) –

- (a) the words “has been convicted of an offence in relation to it” become paragraph (a);
- (b) after that paragraph insert “, or
 - (b) in relation to it, pays the sum specified in a penalty notice given to the person under section 54 of the Development of Tourism and Regulation of Visitor Accommodation (Wales) Act 2026 (asc 00) (and the notice is not subsequently withdrawn).”.

Atodlen 2, tudalen 46, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

‘[] Yn adran 21 (gwahardd cosbi ddwywaith) –

- (a) daw’r geiriau “wedi cael euogfarn am drosedd mewn perthynas â hynny” yn baragraff (a);
- (b) ar ôl y paragraff hwnnw mewnosoder “, neu
 - (b) mewn perthynas â hynny, yn talu’r swm a bennir mewn hysbysiad cosb a roddir i’r person o dan adran 54 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00) (ac na thynnir yr hysbysiad yn ôl wedi hynny).”.

Mark Drakeford

6

Section 15, page 10, line 2, leave out ‘and’ and insert –

‘(so far as applicable);

- () may be granted subject to such licence conditions as may be specified (on a case by case basis) by the Welsh Ministers in accordance with’.

Adran 15, tudalen 9, llinell 35, hepgorer ‘Rhaid i drwydded llety ymwelwyr gael ei rhoi yn ddarostyngedig i –

- (a) yr amodau trwydded a nodir yn is-adran (2);
- (b) unrhyw amodau trwydded pellach a ragnodir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 17 ac’

a mewnosoder –

‘O ran trwydded llety ymwelwyr –

- () rhaid iddi gael ei rhoi yn ddarostyngedig i –
 - (i) yr amodau trwydded a nodir yn is-adran (2);
 - (ii) unrhyw amodau trwydded pellach a ragnodir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 17 (i’r graddau y mae’n gymwys);
- () caniateir iddi gael ei rhoi yn ddarostyngedig i unrhyw amodau trwydded a bennir (fesul achos unigol) gan Weinidogion Cymru yn unol ag’.

Mark Drakeford

7

Section 15, page 10, line 9, leave out ‘, so far as they apply, the VAP meets any requirements in relation to’ and insert ‘the VAP has completed the applicable’.

Adran 15, tudalen 10, llinell 10, hepgorer ‘yn bodloni unrhyw ofynion, i’r graddau y maent yn gymwys, mewn perthynas â hyfforddiant’ a mewnosoder ‘wedi cwblhau’r hyfforddiant cymwys’.

Luke Fletcher

61

Section 15, page 10, after line 16, insert –

- () that the VAP takes all reasonable steps, in relation to the provision of visitor accommodation at the premises –
 - (i) to prevent conduct that is capable of causing nuisance or annoyance to a person with a right (of whatever description) to reside in the locality of the premises, and
 - (ii) to prevent such conduct, where it occurs, causing the nuisance or annoyance;’.

Adran 15, tudalen 10, ar ôl llinell 17, mewnosoder –

- () bod y DLIY yn cymryd pob cam rhesymol, mewn perthynas â darparu llety ymwelwyr yn y fangre –
 - (i) i atal ymddygiad a allai beri niwsans neu annifyrrwch i berson sydd â hawl (o ba bynnag ddisgrifiad) i breswyllo yng nghyffiniau’r fangre, a
 - (ii) i atal ymddygiad o’r fath, pan fo’n digwydd, rhag peri’r niwsans neu’r annifyrrwch;’.

Mark Drakeford

8

Section 15, page 10, after line 26, insert –

- ‘(4) For the purposes of this Chapter, article 43 of the Regulatory Reform (Fire Safety) Order 2005 (S.I. 2005/1541) (suspension of terms and conditions of licence) does not apply in relation to any condition or approval requirement (see section 19) imposed in relation to a visitor accommodation licence.’.

Adran 15, tudalen 10, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

- ‘(4) At ddibenion y Bennod hon, nid yw erthygl 43 o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (O.S. 2005/1541) (atal dros dro delerau ac amodau trwydded) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw amod nac unrhyw ofyniad cymeradwyo (gweler adran 19) a osodir mewn perthynas â thrwydded llety ymwelwyr.’.

Luke Fletcher

62

Section 15, page 10, after line 26, insert –

- ‘(4) the condition in subsection (2)(d) applies only in relation to the provision of regulated visitor accommodation of the description referred to in section 5(1)(a);
- (5) the reference in subsection (2)(d) to preventing conduct capable of causing nuisance or annoyance is limited to preventing conduct –
- (i) foreseeable to the VAP or that ought to be foreseeable to the VAP, and
 - (ii) that is practicable to prevent.’.

Adran 15, tudalen 10, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

- ‘(4) nid yw’r amod yn is-adran (2)(d) yn gymwys ond mewn perthynas â darparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig o’r disgrifiad y cyfeirir ato yn adran 5(1)(a);
- (5) mae’r cyfeiriad yn is-adran (2)(d) at atal ymddygiad a allai beri niwsans neu annifyrrwch wedi ei gyfyngu i atal ymddygiad –
- (i) y mae modd i’r DLIY ei rag-weld neu y dylai bod modd i’r DLIY ei rag-weld, a
 - (ii) sy’n ymarferol i’w atal.’.

Mark Drakeford

9

Section 16, page 10, line 28, leave out subsections (1) to (3) and insert –

- ‘() This section makes provision about the visitor accommodation provider training that applies for the purposes of –
- (a) the condition referred to in section 15(2)(b), and
 - (b) the approval requirement referred to in section 19(2)(b).

- () The Welsh Ministers must by regulations prescribe the training a VAP must complete in relation to –
 - (a) the licence conditions referred to in section 15(1)(a);
 - (b) the content of the code of practice issued by the Welsh Ministers under section 3;
 - (c) such other matters connected to the regulation of visitor accommodation under this Part and Part 4 as the Welsh Ministers consider appropriate.
- () Regulations under subsection (2) may –
 - (a) make different provision in relation to the provision of different descriptions of regulated visitor accommodation or different descriptions of premises;
 - (b) make different provision in relation to different descriptions of VAP (including in relation to corporate and non-corporate entities);
 - (c) provide for circumstances in which training is not required to be completed.
- () Regulations under subsection (2) may also make provision –
 - (a) in connection with training being provided only –
 - (i) by the Welsh Ministers, or
 - (ii) by persons authorised by the Welsh Ministers;
 - (b) specifying fees that may be charged or a method for determining fees that may be charged –
 - (i) by the Welsh Ministers, or persons authorised by the Welsh Ministers, for providing training;
 - (ii) by the Welsh Ministers for authorising a person to provide training .’.

Adran 16, tudalen 10, llinell 27, hepgorer is-adranau (1) hyd at (3) a mewnosoder –

- ‘() Mae’r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch yr hyfforddiant ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr sy’n gymwys at ddibenion –
 - (a) yr amod y cyfeirir ato yn adran 15(2)(b), a
 - (b) y gofyniad cymeradwyo y cyfeirir ato yn adran 19(2)(b).
- () Rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau ragnodi’r hyfforddiant y mae rhaid i DLIY ei gwblhau mewn perthynas ag –
 - (a) yr amodau trwydded y cyfeirir atynt yn adran 15(1)(a);
 - (b) cynnwys y cod ymarfer a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 3;
 - (c) unrhyw faterion eraill sy’n gysylltiedig â rheoleiddio llety ymwelwyr o dan y Rhan hon a Rhan 4 y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.
- () Caiff rheoliadau o dan is-adran (2) –
 - (a) gwneud darpariaeth wahanol mewn perthynas â darparu disgrifiadau gwahanol o lety ymwelwyr rheoleiddiedig neu â disgrifiadau gwahanol o fangre;
 - (b) gwneud darpariaeth wahanol mewn perthynas â disgrifiadau gwahanol o DLIY (gan gynnwys mewn perthynas ag endidau corfforaethol ac endidau anghorfforaethol);
 - (c) darparu ar gyfer amgylchiadau pryd nad yw’n ofynnol cwblhau hyfforddiant.
- () Caiff rheoliadau o dan is-adran (2) hefyd wneud darpariaeth –



- (a) mewn cysylltiad â hyfforddiant yn cael ei ddarparu dim ond –
 - (i) gan Weinidogion Cymru, neu
 - (ii) gan bersonau sydd wedi eu hawdurdodi gan Weinidogion Cymru;
- (b) sy'n pennu'r ffioedd y caniateir eu codi neu ddull ar gyfer penderfynu'r ffioedd y caniateir eu codi –
 - (i) gan Weinidogion Cymru, neu bersonau sydd wedi eu hawdurdodi gan Weinidogion Cymru, am ddarparu hyfforddiant;
 - (ii) gan Weinidogion Cymru am awdurdodi person i ddarparu hyfforddiant.'

Luke Fletcher 63

Section 16, page 10, after line 31, insert –

- '() prevention of nuisance or annoyance;'

Adran 16, tudalen 10, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

- '() atal niwsans neu annifyrrwch;'

Mark Drakeford 10

Section 17, page 11, line 27, leave out 'any characteristic of the' and insert 'the description of'.

Adran 17, tudalen 11, llinell 28, hepgorer 'unrhyw nodwedd ar y' a mewnosoder 'y disgrifiad o'.

Mark Drakeford 11

Section 17, page 11, line 28, leave out 'any characteristic of any' and insert 'a description of'.

Adran 17, tudalen 11, llinell 29, hepgorer 'unrhyw nodwedd ar unrhyw' a mewnosoder 'disgrifiad o'.

Mark Drakeford 12

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 17, tudalen 11, llinell 32, hepgorer 'Caiff' a mewnosoder 'O ran'.

Mark Drakeford 13

Section 17, page 11, line 31, leave out 'may amend this Act' and insert –

' –

- (a) must make provision about the application of any conditions prescribed by the regulations to licences granted (or renewed) prior to the coming into force of those conditions;

- (b) may amend this Act for any purpose connected to conditions being prescribed under this section’.

Adran 17, tudalen 11, llinell 32, hepgorer ‘ddiwygio’r Ddeddf hon’ a mewnosoder –

‘ –

- (a) rhaid iddynt wneud darpariaeth ynghylch cymhwyso unrhyw amodau a ragnodir gan y rheoliadau i drwyddedau a roddir (neu a adnewyddir) cyn i’r amodau hynny ddod i rym;
- (b) cânt ddiwygio’r Ddeddf hon at unrhyw ddiben sy’n gysylltiedig ag amodau yn cael eu rhagnodi o dan yr adran hon’.

Mark Drakeford

14

Page 12, line 19, leave out section 19 and insert –

[] Licence applications: approval requirements

- (1) This section makes provision about the requirements to be met in relation to an application by a VAP for a visitor accommodation licence (“the approval requirements”).
- (2) The approval requirements are –
- (a) that –
- (i) the VAP is registered in respect of the premises to which the application relates, and
- (ii) the VAP’s entry in the register shows that the VAP provides the regulated visitor accommodation to which the application relates, at those premises;
- (b) that the VAP has completed the applicable visitor accommodation provider training (see section 16);
- (c) that –
- (i) in so far as they apply in respect of the premises, the specific fitness standards (see section 8) are met,
- (ii) the premises appear to offer adequate and appropriate amenity to visitors, and
- (iii) the general fitness standard (see section 7) is likely to be met in respect of the premises during any period in which a visitor is entitled to reside in or at the accommodation,
- (3) The Welsh Ministers may by regulations prescribe such further approval requirements as they consider appropriate for the purpose of –
- (a) maintaining or improving the standard of visitor accommodation in Wales;
- (b) maintaining or enhancing the amenity of premises at which visitor accommodation is provided or the amenity of the land upon which those premises are situated;
- (c) promoting tourism in Wales.
- (4) Regulations under subsection (3) may prescribe an approval requirement by reference to –
- (a) a description of premises in respect of which the requirement applies;

- (b) a description of regulated visitor accommodation in respect of which the requirement applies;
 - (c) the nature or content of the contracts under which a description of regulated visitor accommodation is provided at the premises pursuant to the licence;
 - (d) the description of VAP to which the licence is granted;
 - (e) a description of person to which visitor accommodation is provided at the premises pursuant to the licence;
 - (f) any other matter that the Welsh Ministers consider appropriate.
- (5) Regulations under subsection (3) may amend this Act for any purpose connected to requirements being prescribed under this section.
- (6) Before making regulations under subsection (3) the Welsh Ministers must consult any persons they consider appropriate.
- (7) But the requirement under subsection (6) does not apply to regulations that –
- (a) amend regulations previously made under subsection (3), and
 - (b) do not, in the opinion of the Welsh Ministers, effect any substantial change in the provision made by the regulations to be amended.
- (8) In this section references to “premises” are to be construed in accordance with section 6(4).’.

Tudalen 12, llinell 21, hepgorer adran 19 a mewnosoder –

[] Ceisiadau am drwydded: gofynion cymeradwyo

- (1) Mae’r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch y gofynion sydd i’w bodloni mewn perthynas â chais gan DLIY am drwydded llety ymwelwyr (“y gofynion cymeradwyo”).
- (2) Y gofynion cymeradwyo yw –
 - (a) bod –
 - (i) y DLIY wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â’r fangre y mae’r cais yn ymwneud â hi, a
 - (ii) cofnod y DLIY yn y gofrestr yn dangos bod y DLIY yn darparu’r llety ymwelwyr rheoleiddiedig y mae’r cais yn ymwneud ag ef, yn y fangre honno;
 - (b) bod y DLIY wedi cwblhau’r hyfforddiant cymwys ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr (gweler adran 16);
 - (c) bod –
 - (i) y safonau ffitrwydd penodol (gweler adran 8) wedi eu cyrraedd, i’r graddau y maent yn gymwys mewn cysylltiad â’r fangre,
 - (ii) y fangre’n ymddangos fel pe bai’n cynnig amwynder digonol a phriodol i ymwelwyr, a
 - (iii) y safon gyffredinol o ran ffitrwydd (gweler adran 7) yn debygol o gael ei chyrraedd mewn cysylltiad â’r fangre yn ystod unrhyw gyfnod pryd y mae gan ymwelydd hawlogaeth i breswyllo yn y llety.

- (3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ragnodi unrhyw ofynion cymeradwyo pellach y maent yn ystyried eu bod yn briodol at ddiben –
- (a) cynnal neu wella safon llety ymwelwyr yng Nghymru;
 - (b) cynnal neu wella amwynder mangre lle y darperir llety ymwelwyr neu amwynder y tir y mae’r fangre honno arno;
 - (c) hybu twristiaeth yng Nghymru.
- (4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (3) ragnodi gofyniad cymeradwyo drwy gyfeirio at –
- (a) disgrifiad o fangre y mae’r gofyniad yn gymwys mewn cysylltiad ag ef;
 - (b) disgrifiad o lety ymwelwyr rheoleiddiedig y mae’r gofyniad yn gymwys mewn cysylltiad ag ef;
 - (c) natur neu gynnwys y contractau y darperir disgrifiad o lety ymwelwyr rheoleiddiedig yn y fangre odanynt yn unol â’r drwydded;
 - (d) y disgrifiad o DLIY y rhoddir y drwydded iddo;
 - (e) disgrifiad o berson y darperir llety ymwelwyr iddo yn y fangre yn unol â’r drwydded;
 - (f) unrhyw fater arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.
- (5) Caiff rheoliadau o dan is-adran (3) ddiwygio’r Ddeddf hon at unrhyw ddiben sy’n gysylltiedig â gofynion yn cael eu rhagnodi o dan yr adran hon.
- (6) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (3) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.
- (7) Ond nid yw’r gofyniad o dan is-adran (6) yn gymwys i reoliadau –
- (a) sy’n diwygio rheoliadau a wnaed yn flaenorol o dan is-adran (3), a
 - (b) nad ydynt, ym marn Gweinidogion Cymru, yn rhoi effaith i unrhyw newid sylweddol yn y ddarpariaeth a wneir gan y rheoliadau sydd i’w diwygio.
- (8) Yn yr adran hon mae cyfeiriadau at “mangre” i’w dehongli yn unol ag adran 6(4).’.

Mark Drakeford

15

Section 20, page 13, line 17, leave out ‘(5)’ and insert ‘(6)’.

Adran 20, tudalen 13, llinell 17, hepgorer ‘(5)’ a mewnosoder ‘(6)’.

Samuel Kurtz

76

Section 20, page 13, line 18, leave out ‘as soon as is reasonably practicable’ and insert ‘within 28 days of receiving the application’.

Adran 20, tudalen 13, llinell 19, hepgorer ‘cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol’ a mewnosoder ‘o fewn 28 o ddiwrnodau i gael y cais’.

Mark Drakeford **16**

Section 20, page 13, after line 21, insert—

‘() If the Welsh Ministers are satisfied that the approval requirements in section 19(2)(c)(i) and section 19(2)(c)(ii) are met in relation to the application, they may on that basis be satisfied that the requirement in section 19(2)(c)(iii) is met.’

Adran 20, tudalen 13, ar ôl llinell 21, mewnosoder—

‘() Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y gofynion cymeradwyo yn adran 19(2)(c)(i) ac adran 19(2)(c)(ii) wedi eu bodloni mewn perthynas â’r cais, caiff Gweinidogion Cymru ar y sail honno fod wedi eu bodloni bod y gofyniad yn adran 19(2)(c)(iii) wedi ei fodloni.’

Mark Drakeford **17**

Section 20, page 13, line 22, leave out ‘in section 19’.

Adran 20, tudalen 13, llinell 22, hepgorer ‘yn adran 19’.

Samuel Kurtz **77**

Section 20, page 13, line 23, leave out ‘as soon as reasonably practicable’ and insert ‘, within 28 days of receiving the application’.

Adran 20, tudalen 13, llinell 23, hepgorer ‘cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol’ a mewnosoder ‘o fewn 28 o ddiwrnodau i gael y cais’.

Mark Drakeford **18**

Section 20, page 13, line 25, leave out ‘in accordance with section 22’.

Adran 20, tudalen 13, llinell 26, hepgorer ‘yn unol ag adran 22’.

Mark Drakeford **19**

Section 20, page 13, line 26, leave out subsection (3).

Adran 20, tudalen 13, llinell 27, hepgorer is-adran (3).

Mark Drakeford **20**

Section 20, page 13, line 33, leave out ‘this subsection applies, the Welsh Ministers’ and insert ‘the Welsh Ministers are not satisfied that all of the approval requirements are met they’.

Adran 20, tudalen 13, llinell 36, hepgorer ‘fo’r is-adran hon yn gymwys, rhaid i Weinidogion Cymru’ a mewnosoder ‘na fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod yr holl ofynion cymeradwyo wedi eu bodloni rhaid iddynt’.

Samuel Kurtz 78

Section 20, page 13, line 33, leave out ‘as soon as is reasonably practicable’ and insert ‘within 28 days of receiving the application’.

Adran 20, tudalen 13, llinell 36, hepgorer ‘cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol’ a mewnosoder ‘o fewn 28 o ddiwrnodau i gael y cais’.

Mark Drakeford 21

Section 20, page 14, after line 15, insert –

- ‘() if the Welsh Ministers consider it appropriate to carry out an inspection of the premises, specify that the Welsh Ministers will arrange for an authorised person to inspect the premises, and’.

Adran 20, tudalen 14, ar ôl llinell 15, mewnosoder –

- ‘() os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol cynnal archwiliad o’r fangre, bennu y bydd Gweinidogion Cymru yn trefnu i berson awdurdodedig archwilio’r fangre, a’.

Mark Drakeford 22

Section 20, page 14, line 17, after ‘any’, insert ‘other’.

Adran 20, tudalen 14, llinell 17, ar ôl ‘gweithredu’, mewnosoder ‘eraill’.

Mark Drakeford 23

Section 20, page 14, line 20, leave out ‘subsection (3), the Welsh Ministers may not be satisfied that an approval requirement is met for any reason, including (but not limited to) –

- (a) information or evidence contained in or omitted from the application;
- (b) any other information or evidence provided to the Welsh Ministers in the exercise of their functions under this Chapter, including (but not limited to) information or evidence provided by –
 - (i) a county council or county borough council in Wales;
 - (ii) a person designated as a licensing authority for the purposes of Part 1 of the Housing (Wales) Act 2014 (anaw 7) (regulation of private rented housing);
 - (iii) a fire and rescue authority for an area in Wales’

and insert –

‘subsections (3) and (4), the Welsh Ministers may decide whether or not they are satisfied that an approval requirement is met –

- () on the basis only of information contained in (or omitted from) the application, or
- () on the basis of that information and any other information available to the Welsh Ministers, including (but not limited to) information provided in connection with their functions under this Chapter’.

Adran 20, tudalen 14, llinell 22, hepgorer 'is-adran (3) caiff Gweinidogion Cymru fod heb eu bodloni bod gofyniad cymeradwyo wedi ei fodloni am unrhyw reswm, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) –

- (a) gwybodaeth neu dystiolaeth sydd wedi ei chynnwys yn y cais neu wedi ei hepgor ohono;
- (b) unrhyw wybodaeth arall neu unrhyw dystiolaeth arall a ddarperir i Weinidogion Cymru wrth iddynt arfer eu swyddogaethau o dan y Bennod hon, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) wybodaeth neu dystiolaeth a ddarperir gan –
 - (i) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;
 - (ii) person sydd wedi ei ddynodi yn awdurdod trwyddedu at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7) (rheoleiddio tai rhent preifat);
 - (iii) awdurdod tân ac achub ar gyfer ardal yng Nghymru'

a mewnosoder –

'is-adrannau (3) a (4), caiff Gweinidogion Cymru benderfynu pa un a ydynt wedi eu bodloni ai peidio bod gofyniad cymeradwyo wedi ei fodloni –

- () dim ond ar sail gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y cais (neu wedi ei hepgor ohono), neu
- () ar sail yr wybodaeth honno ac unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael i Weinidogion Cymru, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) wybodaeth a ddarperir mewn cysylltiad â'u swyddogaethau o dan y Bennod hon'.

Mark Drakeford 24

Section 20, page 14, line 30, leave out subsection (7).

Adran 20, tudalen 14, llinell 34, hepgorer is-adran (7).

Mark Drakeford 25

Section 21, page 15, line 21, leave out 'in accordance with section 22'.

Adran 21, tudalen 15, llinell 22, hepgorer 'yn unol ag adran 22'.

Mark Drakeford 26

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 21, tudalen 15, llinell 28, hepgorer 'ydynt' a mewnosoder 'yw Gweinidogion Cymru'.

Mark Drakeford 27

Section 24, page 17, line 2, leave out subsection (1).

Adran 24, tudalen 17, llinell 2, hepgorer is-adran (1).

Mark Drakeford 28

Section 24, page 17, line 7, after ‘licence’, insert ‘by virtue of section 23(1)(a)’.

Adran 24, tudalen 17, llinell 8, ar ôl ‘trwydded’, mewnosoder ‘yn rhinwedd adran 23(1)(a)’.

Rhys ab Owen 71

Section 25, page 17, line 33, leave out ‘1 year’ and insert ‘3 years’.

Adran 25, tudalen 17, llinell 34, hepgorer ‘flwyddyn’ a mewnosoder ‘3 blynedd’.

Mark Drakeford 29

Section 25, page 17, line 34, leave out ‘, longer, period as may be specified in the licence’ and insert ‘period as may be prescribed by the Welsh Ministers in regulations’.

Adran 25, tudalen 17, llinell 35, hepgorer ‘, hwy, a bennir yn y drwydded’ a mewnosoder ‘a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau’.

Mark Drakeford 30

Section 25, page 18, line 1, leave out ‘subsection (2)’ and insert ‘this section’.

Adran 25, tudalen 18, llinell 1, hepgorer ‘is-adran (2)’ a mewnosoder ‘yr adran hon’.

Mark Drakeford 31

Section 25, page 18, leave out line 2.

Adran 25, tudalen 18, hepgorer llinell 2.

Samuel Kurtz 79

Section 27, page 18, line 21, leave out ‘may’ and insert ‘must’.

Adran 27, tudalen 18, llinell 22, hepgorer ‘caiff Gweinidogion’ a mewnosoder ‘rhaid i Weinidogion’.

Samuel Kurtz 80

Section 27, page 19, after line 2, insert –

- ‘() But regulations under subsection (2) must include provision requiring the Welsh Ministers to grant a provisional licence to a VAP provided that –
 - (a) the application for a provisional licence is –
 - (i) in such form, and made in such manner, as the Welsh Ministers may specify;
 - (ii) accompanied by such fee as the Welsh Ministers may prescribe by regulations under section 38(1);

- (b) the Welsh Ministers are satisfied that –
- (i) in so far as they apply in respect of the premises, the specific fitness standards (see section 8) are met;
 - (ii) the VAP is registered in respect of the premises to which the application relates;
 - (iii) the VAP’s entry in the register shows that the VAP provides the regulated visitor accommodation to which the application relates, at those premises.’.

Adran 27, tudalen 19, ar ôl llinell 2, mewnosoder –

‘() Ond rhaid i reoliadau o dan is-adran (2) gynnwys darpariaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi trwydded dros dro i DLIY ar yr amod bod –

- (a) y cais am drwydded dros dro –
- (i) ar unrhyw ffurf, ac yn cael ei wneud mewn unrhyw fodd, a bennir gan Weinidogion Cymru;
 - (ii) yn cynnwys gydag ef unrhyw ffi a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau o dan adran 38(1);
- (b) Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni –
- (i) bod y safonau ffitrwydd penodol (gweler adran 8) wedi eu cyrraedd, i’r graddau y maent yn gynnwys mewn cysylltiad â’r fangre;
 - (ii) bod y DLIY wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â’r fangre y mae’r cais yn ymwneud â hi;
 - (iii) bod cofnod y DLIY yn y gofrestr yn dangos bod y DLIY yn darparu’r llety ymwelwyr rheoleiddiedig y mae’r cais yn ymwneud ag ef, yn y fangre honno.’.

Mark Drakeford

32

Section 31, page 21, line 31, leave out ‘a purpose mentioned in section 30(1)(b)’ and insert ‘the purpose of determining whether any of the circumstances mentioned in section 30(1)(b) have arisen’.

Adran 31, tudalen 21, llinell 32, hepgorer ‘a grybwyllir yn adran 30(1)(b)’ a mewnosoder ‘dyfarnu a yw unrhyw un neu ragor o’r amgylchiadau a grybwyllir yn adran 30(1)(b) wedi codi’.

Mark Drakeford

33

Section 31, page 21, line 34, after ‘expected’, insert ‘or that giving notice to the VAP of an authorised person’s intention to enter the premises is likely to defeat the purpose of the entry’.

Adran 31, tudalen 21, llinell 35, ar ôl ‘rhesymol’, mewnosoder ‘neu fod rhoi hysbysiad i’r DLIY o fwriad person awdurdodedig i fynd i mewn i’r fangre yn debygol o danseilio diben y mynediad’.

Mark Drakeford

34

Section 31, page 22, line 10, leave out ‘and’ and insert –

‘by the Welsh Ministers;

() produce the warrant;

()’.

Adran 31, tudalen 22, llinell 10, hepgorer ‘a’ a mewnosoder –

‘gan Weinidogion Cymru;

() dangos y warant;

()’.

Rhys ab Owen

72

Section 32, page 23, after line 3, insert –

‘() In subsection (1), references to a “visitor accommodation licence” include, in the case of a person offering to provide regulated visitor accommodation, a provisional licence granted to the VAP in accordance with regulations made by the Welsh Ministers under section 27.’.

Adran 32, tudalen 23, ar ôl llinell 4, mewnosoder –

‘() Yn is-adran (1), mae cyfeiriadau at “trwydded llety ymwelwyr” yn cynnwys, yn achos person sy’n cynnig darparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig, drwydded dros dro a roddir i’r DLIY yn unol â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 27.’.

Mark Drakeford

35

Section 36, page 24, line 21, leave out ‘22’ and insert ‘20(2) or section 21(2)’.

Adran 36, tudalen 24, llinell 23, hepgorer ‘22’ a mewnosoder ‘20(2) neu adran 21(2)’.

Samuel Kurtz

81

Section 38, page 25, after line 36, insert –

‘() Before making the first regulations under subsection (1), the Welsh Ministers must consult any persons they consider appropriate and allow those persons a period of at least 12 weeks to respond.’.

Adran 38, tudalen 25, ar ôl llinell 35, mewnosoder –

‘() Cyn gwneud y rheoliadau cyntaf o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol a chaniatáu cyfnod o 12 wythnos o leiaf i’r personau hynny ymateb.’.

Samuel Kurtz

82

Section 38, page 25, line 37, after ‘making’, insert ‘the second or subsequent’.

Adran 38, tudalen 25, llinell 36, hepgorer ‘rheoliadau’ a mewnosoder ‘yr ail reoliadau neu reoliadau dilynol’.

Rhys ab Owen

73

Page 25, after line 38, insert a new section –

[] Fee statement

- (1) The Welsh Ministers must publish a statement in respect of each financial year in which the Welsh Ministers have charged fees in accordance with regulations made under section 38.
- (2) The statement must include information about –
 - (a) the total amount of fee revenue received by the Welsh Ministers for the financial year in question, and
 - (b) how the Welsh Ministers have spent or propose to spend (as the case may be) that revenue.
- (3) The Welsh Ministers must publish the statement no later than 30 September in the financial year following the financial year to which the statement relates.’.

Tudalen 25, ar ôl llinell 37, mewnosoder adran newydd –

[] Datganiad ynghylch ffioedd

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol y mae Gweinidogion Cymru wedi codi ffioedd ynndi yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 38.
- (2) Rhaid i’r datganiad gynnwys gwybodaeth am –
 - (a) cyfanswm y refeniw ffioedd a gafwyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol o dan sylw, a
 - (b) sut y mae Gweinidogion Cymru wedi gwario neu’n bwriadu gwario (yn ôl y digwydd) y refeniw hwnnw.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi’r datganiad heb fod yn hwyrach na 30 Medi yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae’r datganiad yn ymwneud â hi.’.

Mark Drakeford

36

Section 40, page 27, line 3, after ‘granting’, insert ‘or renewing’.

Adran 40, tudalen 27, llinell 3, ar ôl ‘roi’, mewnosoder ‘neu adnewyddu’.

Mark Drakeford

37

Section 40, page 27, line 4, leave out ‘further’ and insert ‘licence’.

Adran 40, tudalen 27, llinell 4, hepgorer ‘pellach’ a mewnosoder ‘trwydded’.

Mark Drakeford 38

Section 44, page 28, line 36, leave out ‘the day on which’.

Adran 44, tudalen 28, llinell 35, hepgorer ‘y diwrnod y daeth y DLIY’ a mewnosoder ‘i’r DLIY ddod’.

Mark Drakeford 39

Section 45, page 29, line 14, leave out ‘This section’ and insert ‘Subsection (2)’.

Adran 45, tudalen 29, llinell 14, hepgorer ‘Mae’r adran hon’ a mewnosoder ‘Mae is-adran (2)’.

Mark Drakeford 40

Section 45, page 29, line 20, leave out ‘section’ and insert ‘subsection’.

Adran 45, tudalen 29, llinell 20, hepgorer ‘adran’ a mewnosoder ‘is-adran’.

Mark Drakeford 41

Section 45, page 30, after line 10, insert –

‘() WRA may include any other information in the directory that relates to the exercise of the WRA’s functions under –

- (a) this Act;
- (b) the Visitor Accommodation (Register and Levy) Etc. (Wales) Act 2025 (asc 5);
- (c) the Tax Collection and Management (Wales) Act 2016 (anaw 6);
- (d) any regulations made under those Acts.

() The Welsh Ministers may include any other information in the directory that relates to the exercise of their functions under this Act and any regulations made under this Act.’.

Adran 45, tudalen 30, ar ôl llinell 12, mewnosoder –

‘() Caiff ACC gynnwys unrhyw wybodaeth arall yn y cyfeiriadur sy’n ymwneud ag arfer swyddogaethau’r ACC o dan –

- (a) y Ddeddf hon;
- (b) Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5);
- (c) Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6);
- (d) unrhyw reoliadau a wneir o dan y Deddfau hynny.

() Caiff Gweinidogion Cymru gynnwys unrhyw wybodaeth arall yn y cyfeiriadur sy’n ymwneud ag arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon ac unrhyw reoliadau a wneir o dan y Deddf hon.’.

Samuel Kurtz 83

Section 47, page 30, line 32, leave out ‘person commits an offence if that person’ and insert ‘VAP commits an offence if that VAP’.

Adran 47, tudalen 30, llinell 33, hepgorer ‘person yn cyflawni trosedd os yw’r person’ a mewnosoder ‘DLIY yn cyflawni trosedd os yw’r DLIY’.

Mark Drakeford 42

Section 52, page 33, line 17, leave out ‘offences’ and insert ‘summary offences punishable with a fine’.

Adran 52, tudalen 33, llinell 19, ar ôl ‘troseddau’, mewnosoder ‘diannod y gellir eu cosbi drwy ddirwy’.

Samuel Kurtz 84

Page 33, line 20, leave out section 53 and insert –

[] Power to make provision about transfers of businesses as going concerns

Any visitor accommodation licence granted in the application of this Act shall be freely transferable provided –

- (a) the VAP is not in breach of any conditions of the licence,
- (b) the transferee has not previously had a visitor accommodation licence revoked in respect of another premises,
- (c) the transferee agrees that any liability or duty of the transferor under or by virtue of this Act becomes a liability or duty of the transferee,
- (d) the transferee will maintain any necessary records as required to be maintained under this Act by the transferor, and
- (e) the Welsh Ministers are notified of the transfer within 28 days of completion of the transfer of the premises.’.

Tudalen 33, llinell 22, hepgorer adran 53 a mewnosoder –

[] Pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â throsglwyddo busnesau fel busnesau gweithredol

Mae unrhyw drwydded llety ymwelwyr a roddir wrth gymhwyso’r Ddeddf hon i’w throsglwyddo’n hawdd ar yr amod –

- (a) nad yw’r DLIY yn torri unrhyw amodau’r drwydded,
- (b) nad yw trwydded llety ymwelwyr y trosglwyddai mewn cysylltiad â mangre arall wedi ei dirymu yn flaenorol,

- (c) bod y trosglwyddai yn cytuno bod unrhyw atebolrwydd neu ddyletswydd ar ran y trosglwyddwr o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon yn dod yn atebolrwydd neu’n ddyletswydd i’r trosglwyddai,
- (d) y bydd y trosglwyddai yn cadw unrhyw gofnodion angenrheidiol y mae’n ofynnol eu cadw o dan y Ddeddf hon gan y trosglwyddwr, ac
- (e) bod Gweinidogion Cymru yn cael eu hysbysu am y trosglwyddiad o fewn 28 o ddiwrnodau i gwblhau trosglwyddo’r fangre.’.

Mark Drakeford 43

Section 53, page 34, line 2, leave out ‘offences’ and insert ‘summary offences punishable with a fine’.
Adran 53, tudalen 34, llinell 2, ar ôl ‘troseddau’, mewnosoder ‘diannod y gellir eu cosbi drwy ddirwy’.

Rhys ab Owen 44A

As an amendment to amendment 44, after line 6, insert –

- ‘(3) In carrying out a review under subsection (1), the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate.
- (4) A report under subsection (1) must be laid before Senedd Cymru.’.

Fel gwelliant i welliant 44, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

- ‘(3) Wrth gynnal adolygiad o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.
- (4) Rhaid gosod adroddiad o dan is-adran (1) gerbron Senedd Cymru.’.

Mark Drakeford 44

Page 35, after line 15, insert a new section –

[] Review of operation and effect of Act

- (1) The Welsh Ministers must –
 - (a) carry out a review of the operation and effect of Parts 3 to 5 of this Act, and
 - (b) publish, in such manner as they consider appropriate, a report of the review.
- (2) The review under subsection (1) must be completed before the end of the period of 4 years beginning with the day on which those Parts come fully into force.’.

Tudalen 35, ar ôl llinell 17, mewnosoder adran newydd –

[] Adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru –
 - (a) cynnal adolygiad o weithrediad ac effaith Rhannau 3 i 5 o’r Ddeddf hon, a

(b) cyhoeddi, mewn unrhyw fodd y maent yn ystyried ei fod yn briodol, adroddiad ar yr adolygiad.

(2) Rhaid cwblhau’r adolygiad o dan is-adran (1) cyn diwedd y cyfnod o 4 blynedd sy’n dechrau â’r diwrnod y daw’r Rhannau hynny i rym yn llawn.’.

Mark Drakeford 45

Section 57, page 35, line 17, after ‘power’, insert ‘or duty’.

Adran 57, tudalen 35, llinell 19, ar ôl ‘pŵer’, mewnosoder ‘neu ddyletswydd’.

Mark Drakeford 46

Section 57, page 35, line 18, after ‘power’ at the first place where it appears, insert ‘or duty’.

Adran 57, tudalen 35, llinell 21, ar ôl ‘pŵer’ yn y lle cyntaf y mae’n ymddangos, mewnosoder ‘neu ddyletswydd’.

Samuel Kurtz 85

Section 57, page 35, after line 29, insert –

‘() section 7(2) (fitness for visitor accommodation: general standard);’.

Adran 57, tudalen 35, ar ôl llinell 34, mewnosoder –

‘() adran 7(2) (ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: y safon gyffredinol);’.

Rhys ab Owen 74

Section 57, page 35, after line 31, insert –

‘() section 24(2) (breach of licence conditions: remedial notices);’.

Adran 57, tudalen 35, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

‘() adran 24(2) (torri amodau trwydded: hysbysiadau adfer);’.

Rhys ab Owen 47A

As an amendment to amendment 47, line 2, leave out ‘the first regulations under’.

Fel gwelliant i welliant 47, llinell 2, hepgorer ‘y rheoliadau cyntaf o dan’.

Mark Drakeford 47

Section 57, page 35, after line 33, insert –

‘() section 27 (provisional licences);

() the first regulations under section 38(1) (fees in relation to visitor accommodation licences);

- () section 40(4) (specific provision applicable in respect of campsite and caravan site licences);’.

Adran 57, tudalen 35, ar ôl llinell 38, mewnosoder –

- ‘() adran 27 (trwyddedau dros dro);
- () y rheoliadau cyntaf o dan adran 38(1) (ffioedd mewn perthynas â thrwyddedau llety ymwelwyr);
- () adran 40(4) (darpariaeth benodol sy’n gymwys mewn cysylltiad â thrwyddedau safleoedd gweryslla a thrwyddedau safleoedd carafannau);’.

Samuel Kurtz

86

Section 57, page 35, after line 33, insert –

- ‘() section 38 (fees in relation to visitor accommodation licences);’.

Adran 57, tudalen 35, ar ôl llinell 38, mewnosoder –

- ‘() adran 38 (ffioedd mewn perthynas â thrwyddedau llety ymwelwyr);’.

Mark Drakeford

48

Section 58, page 36, after line 14, insert –

“approval requirements” (“*gofynion cymeradwyo*”) has the meaning given in section 19(1);’.

Adran 58, tudalen 36, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

‘mae i “gofynion cymeradwyo” (“*approval requirements*”) yr ystyr a roddir yn adran 19(1);’.

Mark Drakeford

49

Section 58, page 36, line 26, after ‘means’, insert ‘, unless the context requires otherwise,’.

Adran 58, tudalen 36, llinell 26, ar ôl (“registered”), mewnosoder ‘, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall,’.

Mark Drakeford

50

Section 59, page 37, line 7, after ‘Chapter’, insert ‘, other than section 55 (guidance),’.

Adran 59, tudalen 37, llinell 11, ar ôl ‘hon’ yn y lle cyntaf y mae’n ymddangos, mewnosoder ‘, heblaw adran 55 (canllawiau),’.

Mark Drakeford

51

Section 59, page 37, line 10, after ‘instrument’, insert ‘, except that –

- (a) sections 16, 24, 25(2) and (3), 27, 37 and 38, come into force on 5 March 2029 if they have not come into force before that day, and

(b) the remaining provisions of this Act come into force on 4 March 2030 if they have not come into force before that day.

() The Welsh Ministers may by order made by Welsh statutory instrument amend the date referred to in subsection (2)(b) to a day that is no later than 2 years after that day’.

Adran 59, tudalen 37, llinell 14, ar ôl ‘Cymreig’, mewnosoder’, ac eithrio –

(a) adrannau 16, 24, 25(2) a (3), 27, 37 a 38, a ddaw i rym ar 5 Mawrth 2029 os nad ydynt wedi dod i rym cyn y diwrnod hwnnw, a

(b) gweddill darpariaethau’r Ddeddf hon, a ddaw i rym ar 4 Mawrth 2030 os nad ydynt wedi dod i rym cyn y diwrnod hwnnw.

() Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol Cymreig ddiwygio’r dyddiad y cyfeirir ato yn is-adran (2)(b) i ddiwrnod nad yw’n hwyrach na 2 flynedd ar ôl y diwrnod hwnnw’.

Samuel Kurtz

87

Section 59, page 37, line 10, after ‘instrument’, insert ‘, subject to the Senedd approval procedure’.

Adran 59, tudalen 37, llinell 14, hepgorer ‘Cymreig’ a mewnosoder ‘Cymreig, yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo’r Senedd’.

Samuel Kurtz

88

Section 59, page 37, after line 14, insert –

‘(4) But an order made under subsection (2) may not provide for any provision in Part 3 to come into force before a code of practice has been published by the Welsh Ministers under section 3.’.

Adran 59, tudalen 37, ar ôl llinell 18, mewnosoder –

‘(4) Ond ni chaiff gorchymyn o dan is-adran (2) ddarparu i unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 3 ddod i rym cyn i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer o dan adran 3.’.

